museum development united kingdom

# Tegwch a Chynhwysiant mewn Amgueddfeydd

## Peilot Rhaglen 2021–22

Adroddiad gwerthuso drafft ar gyfer dysgu cyfranogwyr

**Mehefin 2022**

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

Association of Independent Museums
Helping Heritage Organisations Prosper

mduk.org.uk

Mae Museum Development UK (MDUK) yn cydnabod ein rôl, ochr yn ochr â rôl amgueddfeydd, i ddatblygu sector cynhwysol sydd yn herio ac yn gwrthwynebu hiliaeth ac anghydraddoldeb ac rydym yn gweithio i ddatblygu dull gweithredu ar y cyd i gefnogi amgueddfeydd wrth iddynt fynd i'r afael ag anghydraddoldebau sefydliadol, sectorol a strwythurol.

Ym mis Gorffennaf 2020, cyhoeddwyd datganiad gan MDUK mewn ymateb i'r protestiadau rhyngwladol Mae Bywydau Du o Bwys yn dilyn llofruddiaeth George Floyd yn Unol Daleithiau America, yn datgan ein hymrywmiad i ddysgu, gweithredu a gwrando ar beth oedd yn digwydd ar draws y byd.

Mewn ymateb i'r Symudiad Mae Bywydau Du o Bwys, sefydlwyd gweithgor Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) gan MDUK. Pwrpas y grŵp hwn yw rhannu syniadau, pryderon, heriau a'n dyheadau ar gyfer y sector amgueddfeydd o ran amrywiaeth a chynhwysiant a sut y gall MDUK alluogi newid cadarnhaol.

Yn 2021–22 cyflenwyd rhaglen genedlaethol EDI gan MDUK gyda'i phartner Cymdeithas yr Amgueddfeydd Annibynnol (AIM) ar gyfer amgueddfeydd ar draws Lloegr a Chymru.

**Nodau allweddol y rhaglen oedd:**

1. Cefnogi amgueddfeydd i ddatblygu lefel gyson o ddealltwriaeth o EDI a beth mae'n ei olygu ar gyfer eu sefydliadau a'u hymwelwyr.
2. Cynyddu ymwybyddiaeth o heriau a chyfleoedd amgueddfa-benodol yn perthyn i EDI a chefnogi'r datblygiad o ddatrysiadau ymarferol.
3. Amlygu a galluogi arfer da cynhwysol yn yr amgueddfeydd.
4. Grymuso amgueddfeydd i daclo materion systematig.
5. Archwilio model newydd o weithio i MDUK.

Comisiynwyd NoBarriers gan MDUK, ymgynghoriaeth annibynnol sydd yn arbenigo mewn EDI yn y sector diwylliannol, i ddyfeisio a chyflenwi'r rhaglen (Atodiad 1). Cynhaliwyd y rhaglen beilot dan y teitl Equity and Inclusion in Museums, o 2 Tachwedd 2021 i 31 Mawrth 2022. Recriwtiwyd 20 amgueddfa i gyfranogi ym mis Hydref 2021 a gwerthuswyd dysgu'r cyfranogwyr rhwng Ebrill a Mehefin 2022. Roedd yr amgueddfeydd a oedd yn gyfranogwyr wedi eu lleoli yn yr ardaloedd canlynol: Dwyrain Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr, Gogledd Ddwyrain, Gogledd Orllewin, De Orllewin, Gorllewin Canolbarth Lloegr, Morgannwg a Cheredigion yng Nghymru.

Cofrestrwyd dau aelod o staff ar y rhageln o bob amgueddfa a oedd yn cyfranogi er mwyn sicrhau y bydd penderfyniadau a chamau gweithredu yn cael eu gweithredu o fewn eu sefydliad. Rhannwyd yr 20 amgueddfa yn 2 garfan yn seiliedig ar eu lefel ymgysylltu â materion EDI adeg recriwtio. Roedd Carfan 1 yn cynnwys amgueddfeydd llai yn gyffredinol, a oedd yn hollol ffres i'r pwnc; tra bod Carfan 2 yn cynnwys sefydliadau mwy a oedd yn fwy datblygedig eu meddwl a'u dulliau gweithredu o ran materion EDI.

Mae'r adroddiad hwn yn werthusiad o ddysgu cyfranogwyr (sydd yn sôn am nodau 1-4 uchod). Gan weithio â chyfranogwyr, roedd y broses werthuso yn tracio datblygiad eu gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a chynllunio yn perthyn i EDI trwy gydol y rhaglen. Oherwydd natur sensitif y rhaglen, mae adborth a sylwadau'r cyfranogwyr yn ddienw.

Ar wahân i'r adroddiad hwn yw'r gwerthusiad mewnol o'r model peilot (sydd yn sôn am nod 5 uchod) ac yn helpu i hysbysu cynllunio MDUK ar gyfer y dyfodol. Mae gwerthusiad y peilot yn archwilio i fodel ac agweddau ymarferol partneriaeth, recriwtio, capasiti i ymgysylltu, cynnwys y rhaglen a lefel yr her.

## Methodoleg gwerthuso a fframwaith rhesymeg

Defnyddiwyd fframwaith rhesymeg i gynllunio'r gwerthusiad. Mae fframwaith rhesymeg, neu fodel damcaniaeth newid, yn ceisio nodi canlyniadau ac effeithiau terfynol y rhaglen, deall sut fydd y gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio yn arwain at y canlyniadau ac effeithiau hynny, mesur y newidiadau sydd yn digwydd, asesu effeithiolrwydd y gweithgareddau o ran arwain at y newidiadau a ragwelwyd gennym a pha ffactorau allanol sydd wedi cael dylanwad. Er bod llawer o'r meddwl y tu ôl i'r peilot wedi ei wneud gyda Grŵp Trosolwg Rhaglen EDI a thrwy ymgynghori gyda NoBarriers, yr ymgynghorwyr a oedd yn dyfeisio ac yn cyflenwi'r rhaglen, mae'n ddefnyddiol ail-ymweld â'r rhagdybiaethau a wnaed, ac adolygu a chadarnhau'r canlyniadau ac effeithiau bwriadedig.

Mae'r broses o fodel rhesymeg yn helpu i amlinellu'r cysylltiad rhwng y gweithgareddau a'r canlyniadau bwriadedig. Mae'n darlunio'r theori o sut y mae gweithgaredd yn arwain at ganlyniad tymor byr sydd yn ei dro yn arwain at effeithiau mwy tymor canolig a thymor hir. Bydd y gwerthusiad yn asesu:

- Ydy "theori" y prosiect yn effeithiol
- Pa ganlyniadau ac effeithiau a gyflawnwyd
- I ba raddau oedd y gweithgareddau yn arwain at y canlyniadau/ effeithiau bwriadedig
- Pa ffactorau allanol a oedd yn dylanwadu ar ganlyniadau ac effeithiau'r prosiect.

**Mae'r gwerthusiad o ddysgu'r cyfranogwyr ar gyfer y rhaglen beilot Tegwch a Chynhwysiant mewn Amgueddfeydd yn cynnwys:**

1. **Allbynnau'r Prosiect**
   Dangosyddion Perfformiad Allweddol (KPIs – casglu data'r cyfranogwyr ar gyfer y peilot).
2. **Canlyniadau'r Prosiect**
   Dadansoddi'r datblygiad o wybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a chynllunio sydd yn perthyn i EDI.

Casglwyd y dystiolaeth ar gyfer y prosiect mewn dwy ffordd. Anfonwyd arolwg byr i gyfranogwyr unigol **(Atodiad 2a)** yn dilyn sesiynau 3, 6 a 10 i adlewyrchu ar y sesiynau blaenorol. Mae canlyniadau'r arolygon hyn yn nhablau canlyniadau'r prosiect, isod. Ar ddiwedd y rhaglen, anfonwyd arolwg at ddau aelod o staff o bob amgueddfa **(Atodiad 2b)** i'w gyflawni gyda'i gilydd.
Ar y cyfan roedd ymatebion i'r gwerthusiad yn dirywio dros gyfnod y rhaglen **(gweler y tabl KPI isod)**.

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Eithriadau – Gall arolwg ystod-hir MDUK gael ei ddosbarthu i gyfranogwyr ar ôl 12 mis ond ni fyddai'n cael ei gynnwys yn yr adroddiad gwerthuso hwn.

| Dangosyddion Perfformiad Allweddol | Targed ar gyfer y peilot hyd at Fawrth 2022 | Go iawn |
|---|---|---|
| Nifer y cyfranogwyr unigol | 40 | 39* |
| Nifer yr amgueddfeydd a gynrychiolir gan gyfranogwyr | 20 | 20 |
| Nifer y sesiynau / oriau ar y cwrs / mewn gweithdai (ddim yn cynnwys mentora a chyfranogaeth grŵp cyfoedion) | 10 | 10 sesiwn a phob un yn cymryd 2.5 awr |
| Nifer ac oriau o sesiynau unigol | 40 | 43 sesiwn yn cymryd tua 73 awr |
| Nifer y cynlluniau EDI a ddatblygwyd (1 i bob amgueddfa) | 20** | 13 |
| Ymatebion i arolwg gwerthuso 1 | 40 | 29 |
| Ymatebion i arolwg gwerthuso 2 | 40 | 24 |
| Ymatebion i arolwg gwerthuso 3 | 40 | 12 |
| Ymatebion i'r arolwg diwedd rhaglen (1 i bob sefydliad) | 20 | 10 |

*39 ar y dechrau (anfonwyd dim ond un person gan ddwy amgueddfa; roedd un amgueddfa yn ei rannu rhwng 3). 38 ar y diwedd – roedd un person yn symud swydd a neb arall yn cymryd ei le.

**Mae rhai cynlluniau bod yn ddatblygiad ar ôl y rhaglen.

Nodwyd y pump canlyniad tymor byr canlynol ar gyfer y peilot. Cytunwyd bod y rhain yn bosib i'w cyflawni ar y cyfan yn y tymor byr i ganolig (e.e. erbyn diwedd y rhaglen) a gellir mesur y rhain yn y gwerthusiad.

1. Mae cyfranogwyr yn arddangos dealltwriaeth gyson o EDI a sut mae'n perthyn i **gynulleidfaoedd**, gweithlu, llywodraethu a rhaglenni eu hamgueddfa.
2. Mae gan gyfranogwyr fwy o **hyder** o ran iaith bresennol ar gyfer trafod EDI a siarad am faterion / pynciau anodd.
3. Mae cyfranogwyr yn datblygu'r **sgiliau** i nodi materion mewnol, cyfleoedd allanol a rhwystrau sydd yn perthyn i EDI o fewn eu sefydliad.
4. Mae cyfranogwyr yn nodi ac yn **cynllunio** ffyrdd o wella recriwtio, mynediad a chyfranogaeth yn eu hamgueddfeydd.
5. Cyflawnir **perchnogaeth sefydliadol** drwy gyfranogwyr yn cynnwys y gweithlu ehangach wrth ddatblygu cynlluniau EDI.

# 1

**Mae cyfranogwyr yn arddangos dealltwriaeth gyson o EDI sut mae'n perthyn i gynulleidfaoedd, gweithlu, llywodraethu a rhaglenni eu hamgueddfa.**

Roedd mwyafrif llethol yr ymatebwyr i'r 3 arolwg gwerthuso yn dangos eu bod yn datblygu dealltwriaeth o EDI trwy gyfranogi yn y rhaglen fel a ganlyn:

| Beth oeddech yn cymryd o'r digwyddiad? | Ymatebion o sesiynau 1-3 | | Ymatebion o sesiynau 4-6 | | Sesiynau sy'n weddill | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dewis ateb** | **Do** | **Naddo** | **Do** | **Naddo** | **Do** | **Naddo** |
| Datblygais wybodaeth a dealltwriaeth o bwnc y sesiwn | 29 | 0 | 24 | 0 | 11 | 1 |

Ar ddiwedd y rhaglen, roedd 10 amgueddfa yn cwblhau'r arolwg gwerthuso, gan ddarparu ymatebion mwy manwl i sut mae eu dealltwriaeth o EDI wedi datblygu oherwydd y rhaglen. Roeddent hefyd yn ymhelaethu ar sut oedd y ddealltwriaeth newydd hon yn perthyn i gynulleidfaoedd, gweithlu, llywodraethu a rhaglenni. Mae llawer o gyfranogwyr yn canolbwyntio ar un neu ddau o feysydd blaenoriaeth mor fuan ar ôl diwedd y rhaglen er mwyn sefydlu eu dysgu EDI. Er enghraifft, mae rhai wedi blaenoriaethu sicrhau amrywiaeth ar fwrdd yr ymddiriedolwyr a / neu eu gwirfoddolwyr; tra bod eraill yn edrych ar raglennu fel rhaglenni allgymorth, ailymweld â dehongli orielau, dad-drefedigaethu casgliadau, datblygiad ac ymchwil, rhaglenni aelodaeth a recriwtio. Ar y cyfan, pan fod cyfranogwyr yn cyfeirio at 'sicrhau amrywiaeth' (o raglenni, y gweithlu, casgliadau, llywodraethu), maent yn canolbwyntio'n bennaf ar gynrychiolaeth o ran ethnigrwydd – er bod rhi hefyd yn cyfeirio at LHDTC+ a mynediad a chynhwysiant anabledd.

O'r 10 ymateb, dim ond un ohonynt a amlygir gan dystiolaeth yr arolwg, ble mae'r derminoleg dderbyniol (presennol) yn dal i fod yn broblemus wrth drafod EDI. Yn ogystal â hyn, maent yn cyfleu'r safbwynt y bydd denu ymwelwyr sydd yn hiliol [sic] amrywiol gan yr amgueddfa yn datrys diffyg cynrychiolaeth o'r bwrdd a'r gweithlu.

Er bod mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn fyr, cafwyd cydnabyddiaeth gan bob amgueddfa bod y rhaglen wedi cael effaith arwyddocaol arnynt yn bersonol ac yn sefydliadol a bod cynlluniau yn cael eu datblygu ar wahanol lefelau a chyflymderau. Mae llawer yn cyfeirio at y cynlluniau strategol sydd yn cael eu datblygu, sut y maent wedi sefydlu meincnodau a sut y bydd data yn cael eu casglu i fonitro cynnydd. Mae nifer wedi sefydlu eiriolwyr EDI neu weithgor ac wedi datbylgu hyfforddiant mewnol i'w gweithlu. Roedd un amgueddfa yn arbennig yn cyfeirio at gynllun datblygu gweithlu er mwyn cefnogi ei staff sydd yn arddel hunaniaeth o un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig yn well.

# 2

**Mae gan gyfranogwyr fwy o hyder yn perthyn i'r iaith bresennol ar gyfer trafod EDI a siarad am bynciau anodd.**

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r 3 arolwg gwerthuso yn dangos fod ganddynt fwy o hyder wrth drafod EDI drwy gyfranogi yn y rhaglen fel a ganlyn:

| Beth oeddech yn cymryd o'r digwyddiad? | Ymatebion o sesiynau 1-3 | | Ymatebion o sesiynau 4-6 | | Sesiynau sy'n weddill | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dewis ateb** | **Ydy** | **Nacydy** | **Ydy** | **Nacydy** | **Ydy** | **Nacydy** |
| Mae fy hyder wedi cynyddu wrth drafod materion sydd yn perthyn i bynciau'r sesiynau. | 28 | 1 | 23 | 1 | 12 | 0 |

Ar ddiwedd y rhaglen, roedd 10 o ymatebwyr i'r arolwg gwerthuso yn arddangos defnydd cywir a chyson o'r derminoleg gywir yn perthyn i EDI. Mae tystiolaeth glir hefyd ar hyd y fintai fod hyder cynyddol wedi arwain at godi materion EDI yn rhagweithiol gyda chydweithwyr. Dyma rai o'r enghreifftiau a roddwyd:

- denu sylw at rwystrau EDI gydag uwch reolwyr
- adrodd ar y rhaglen EDI i fwrdd yr ymddiriedolwyr
- trafod ailddehongli casgliadau gyda'r rheolwr casgliadau er mwyn dangos safbwyntiau gwahanol gymunedau
- herio nid yn unig sut y caiff eitemau eu dehongli ond hefyd pa eitemau y caiff eu casglu yn y dyfodol (fel bod casgliadau yn cynrychioli'r cymunedau a wasanaethir gan yr amgueddfa)
- dod ag EDI at sylw'r Awdurdod Lleol sydd yn cynnal yr amgueddfa.

Mae ymatebwyr hefyd yn rhoi enghreifftiau o adegau ble maent wedi herio rhagfarn ac anghydraddoldeb yn weithredol yn yr amgueddfa o ganlyniad i'r hyder cynyddol hwn, gan gynnwys:

- Trafodaeth am ddiffygion y profiad ymwelwyr presennol ar gyfer ymwelwyr niwrowahanol.
- Herio gwirfoddolwyr sydd yn gwrthwynebu hyfforddiant EDI.
- Herio iaith amhriodol a safbwyntiau rhagfarnus cydweithiwr tuag at grŵp o ymwelwyr penodol.
- Trafod diffygion yr amgueddfa gydag amrywiaeth o grwpiau allanol.

Yn olaf, mae ymatebwyr hefyd wedi bod yn rhagweithiol o ran dechrau trafodaethau anodd am EDI, fel:

- Gyda chydweithwyr eraill ac aelodau o'r gweithlu (yn cynnwys ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr).
- Mewn hyfforddiant gwirfoddolwyr i gynyddu ymwybyddiaeth o ficroymosodiadau a herio defnydd amhriodol o iaith.
- Gyda gwirfoddolwyr blaen y tŷ am y fasnach drawsatlantig mewn caethweision a'i phernasedd heddiw mewn delio â rhagfarn.
- Trafodaethau ar lefel y bwrdd i asesu diffygion y sefydliad o ran cyfleusterau annigonol / anhygyrch a strwythurau sefydliadol.
- Cynhwysiant yn perthyn i iechyd meddwl; cynnwys a iaith sydd yn gallu sbarduno trawma ac ailachosi trawma i ymwelwyr sydd yn arddel hunaniaeth o un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig.

# 3

## Mae cyfranogwyr yn datblygu'r sgiliau i adnabod y materion mewnol, cyfleoedd allanol a'r rhwystrau sy'n perthyn i EDI o fewn eu sefydliad.

Roedd mwyafrif yr ymatebwyr i'r 3 arolwg gwerthuso yn dweud eu bod wedi datblygu'r sgiliau angenrheidiol sy'n perthyn i EDI drwy gyfranogaeth yn y rhaglen fel a ganlyn:

| Beth oeddech yn cymryd o'r digwyddiad? | Ymatebion o sesiynau 1-3 | | Ymatebion o sesiynau 4-6 | | Sesiynau sy'n weddill | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dewis ateb** | **Do** | **Naddo** | **Do** | **Naddo** | **Do** | **Naddo** |
| Llwyddais i ddatblygu sgiliau newydd neu wella rhai eisoes y gellir eu gweithredu yn fy sefydliad | 24 | 5 | 23 | 1 | 12 | 0 |
| Teimlais fy mod yn gallu rhannu'r sgiliau hyn gyda'm cydweithwyr | 26 | 3 | 23 | 1 | 12 | 0 |

Ar ddiwedd y rhaglen, darparwyd ymatebion cryno ac weithiau arwynebol i'r cwestiwn hwn gan yr ymatebwyr i'r arolwg gwerthuso; neu ni chafwyd enghreifftiau clir ganddynt. Er enghraifft, mae llawer yn cyfeirio at nodweddion gwarchodedig ond ychydig iawn ohonynt (os unrhyw rai gwbl) sydd yn trafod y croestoriadedd (e.e. pan fod rhywun yn arddel hunaniaeth o ddwy neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig. Cyfeiriodd un arall at y sgiliau ieithyddol y maent wedi eu datblygu tra bod bod un arall eto yn cyfeirio at ddatblygu 'sgiliau meddal' heb fanylu beth y mae yn ei olygu. Mae yna lawer o ailadrodd o ran cyfeirio at y wybodaeth a'r ddealltwriaeth a ddatblygwyd (yn hytrach na sgiliau). Mae'n deg tybio y gallai'r wahaniaeth rhwng sgiliau a dealltwriaeth fod yn fwy eglir yng nghwestiwn yr arolwg.

Mae yna enghreifftiau o sut y mae cyfranogwyr yn defnyddio beth oeddent yn dysgu ar y rhaglen er budd eu sefydliad. Gellir allosod y sgiliau sy'n perthyn i'r rhain fel a ganlyn:

- **Sgiliau dadansoddol** – a ddefnyddiwyd i adolygu data, gwella methodolegau a datblygu polisïau.
- **Sgiliau ymchwil a datblygu** – i chwilio am bartneriaid, ffyrdd newydd o weithio i amrywiaethu arddangosfeydd, gwirfoddolwyr, y bwrdd, ac artistiaid 'rydym yn eu comiysiynu.
- **Sgiliau rheoli prosiect** – i benderfynu blaenoriaethau a chynllunio, gan gynnwys nodau a mesurau llwyddiant i'r amgueddfa.
- **Sgiliau hwyluso** – i arwain trafodaethau gydag ymddiriedolwyr a staff i rannu dysgu o'r rhaglen.
- **Sgiliau eirioli** – i ddylanwadu ar y bwrdd, yr Awdurdod Lleol, cyllidwyr a'r gweithlu.

# 4

**Mae cyfranogwyr yn nodi ac yn cynllunio ffyrdd o wella recriwtio, mynediad a chyfranogaeth yn eu hamgueddfeydd.**

Roedd datblygu cynllun EDI yn allbwn allweddol i amgueddfeydd a oedd yn cyfranogi yn y rhaglen. Ar ddiwedd y rhaglen, roedd 13 o'r 20 amgueddfa wedi datblygu cynllun a oedd yn barod i'w gymeradwyo gan y bwrdd llywodraethu. Roedd y 7 amgueddfa arall wedi dechrau cynllunio ond heb gwblhau'r cynlluniau erbyn 31 Mawrth 2022. Yn arwyddocaol, roe pob un o'r 20 wedi ymrwymo i gyflenwi cynllun hyd yn oed ble'r oedd y dyddiad cau wedi llithro i leiafrif ohonynt.

Yn ogystal â datblygu eu cynlluniau, cadarnhawyd gan y mwyafrif ohonynt eu bod wedi sefydlu system ar gyfer casglu a deall data yn perthyn i EDI er mwyn monitro cynnydd y cynlluniau. Mae 3 amgueddfa arall yn y broses o chwilio am ddata (penderfynu pa ddata sy'n ddefnyddiol, sydd angen, sy'n ystyrlon ac y gellir eu casglu yn rhwydd i adeiladu fframwaith gwerthuso) i gwblhau eu cynllunio.

Mae un amgueddfa yn y broses o recriwtio rôl newydd – Swyddog EDI – i arwain y gwaith hwn ar ran y sefydliad.

## 5

**Cyflawnir perchnogaeth sefydliadol drwy gyfranogwyr yn cynnwys y gweithlu ehangach wrth ddatblygu cynlluniau EDI.**

Ar y cyfan, adroddwyd fod cyfranogwyr wedi rhannu'r dysgu o'r rhaglen gyda'u cydeweithwyr o fewn eu sefydliad. Yn ôl mwyafrif y cyfranogwyr mae'r dysgu yn cael ei ddefnyddio gan y sefydliad ehangach i hysbysu cynlluniau busnes, datblygu'r gweithlu / gwirfoddolwyr / bwrdd, darparu hyfforddiant ehangach, polisïau, cynlluniau a chyfundrefnau, datblygu casgliadau a chynllunio arddangosfeydd a rhaglenni.

Mae'n werth nodi bod rhai cyfranogwyr yn denu sylw at heriau parhaus a rhwystrau o fewn yr adran hon, gan gynnwys:

- Capasiti unigol a sefydliadol i ymgysylltu ag EDI.
- Sefydlu EDI yn y broses o wneud penderfyniadau.
- Sicrhau bod y bwrdd yn ymwneud ag EDI.
- Cydbwyso EDI gyda blaenoriaethau sefydliadol sy'n cystadlu.
- Sicrhau ymrwymiad gan y sefydliad ehangach (e.e ble mae'r amgueddfa yn eistedd o fewn Awdurdod Lleol).
- Sefydlu EDI pan ei fod yn eistedd gydag un person o fewn y sefydliad.

Fodd bynnag disgrifiwyd hefyd gan ymatebwyr y ffyrdd y maent yn mynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn, megis:

- Darparu rhagor o hyfforddiant EDI i aelodau o'r gweithlu nad oeddent ar y rhaglen.
- Cydnabod y bydd sefydlu EDI yn helpu i dyfu sylfaen yr ymwelwyr ac felly yn sicrhau cynaliadwyedd gwell o'r amgueddfa.
- Rhannu profiadau amgueddfeydd eraill ar y rhaglen i ddangos sut y mae'r sector ehangach yn delio gyda ac yn bleanoriaethu gwaith EDI.

Mae'n glir o drafodaethau gyda chyfranogwyr, y gweithgor EDI a NoBarriers fod darparu'r rhaglen hon yn arwain at gynyddu ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad cyfranogwyr â thegwch, amrywiaeth a chynhwysiant, a pha mor berthnasol yw hyn i unigolion, y sector a'r gymdeithas ehangach. Roedd strwythur y cwrs, ansawdd a safon y cynnwys a phrofiad byw y cyfranwyr yn golygu y cafwyd nodau gwreiddiol MDUK (a restrir uchod) eu cyflawni. Disgrifiwyd hyn yn glir gan gyfranogwyr ar draws y dulliau gwerthuso gwahanol a gwblhawyd ganddynt.

Cyflawnwyd mwyafrif y dangosyddion perfformiad allweddol (KPIs), a rhagorwyd ar eraill. Yr unig ddiffyg o ran cyrraedd y KPIs yw nifer yr amgueddfeydd a oedd yn cwblhau eu cynllun EDI erbyn diwedd y rhaglen. Fodd bynnag, mae'r ffaith fod pob amgueddfa wedi dechrau cynllun a bod pob cyfranogydd wedi ymwrymo i'w gyflawni yn y dyfodol agos yn fesur da o lwyddiant.

Roedd yn siomedig fod ymgysylltiad â'r broses werthuso yn lleihau wrth i'r rhaglen fynd yn ei blaen. Fodd bynnag, efallai bod gorflinder o arolygon yn ffactor ac y bydd nifer llai o arolygon wedi arwain at gyfradd uwch o ymatebion. Mae'n bosib hefyd bod dyddiad cwblhau'r rhaglen a oedd ar yr un pryd â diwedd y flwyddyn ariannol wedi cael effaith ar nifer yr ymatebion.

Mae dadansoddiad o ddatblygiad gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau a chynllunio yn perthyn i EDI o ar draws y dulliau gwerthuso yn arddangos fod canlyniadau'r rhaglen yn cael eu gwireddu gan amgueddfeydd a oedd yn cwblhau'r rhaglen a'r arolwg. Eto, roedd strwythur, cynnwys, dysgu cymheiriaid a sesiynau personol y rhaglen a ddarparwyd gan NoBarriers yn arwain yn uniongyrchol at y canlyniadau bwriadedig a'r effeithiau yn cael eu gwireddu. Er bod cyfranogwyr yn gwirfoddoli i gyfranogi yn y rhaglen, nid oedd unrhyw un yn optio allan nag yn ymddieithrio o'r pwnc – mesur clir o lwyddiant. Bydd y rhaglen hon a ddyfeisiwyd gan MDUK, yn golygu bod astudiaethau achos yn bodoli o waith EDI mewn amgueddfeydd bach a chymhedrol eu maint, gan gynnwys amgueddfeydd a arweinir gan wirfoddolwyr, y gellir eu rhannu ar draws y sector.

Bydd y ffactorau allanol a fydd wedi cael effaith ar ganlyniadau'r prosiect yn amrywio'n eang. Bydd y gwaith sy'n parhau ac etifeddiaeth y Symudiad Mae Bywydau Du o Bwys, gan gynnwys tynnu'r cerflun o Edward Colston i lawr ym Mryste a threial dilynol y protestwyr, y cynnydd mewn sylw adain-dde yn y wasg a beth sydd yn cael ei adnabod fel 'rhyfel ddiwylliannol', deddfwriaeth fewnfudo'r DU; ac yn yr Unol Daleithiau – deddfau rheoli drylliau, y ddadl barhaus am hawliau Traws a newidiadau i ddeddfau Erthyliad ac adrodd Byd-eang ar anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig â thlodi, Covid-19 a'r argyfwng hinsawdd, i gyd yn llywio meddwl ac ystyriaethau cyfranogwyr wrth ddatblygu cynlluniau a thrawsnewidiad eu sefydliad.

## Rhaglen Degwch a Chynhwysiant mewn Amgueddfeydd

**Mae'r rhaglen yn cynnwys pedwar maes gweithgaredd fel a ganlyn:**

1. gweithdai ar-lein gyda darllen cefndir / deunyddiau cefnogi
2. cymorth un-i-un unigol
3. cymorth mewn grŵp
4. cynllunio ymarferol (i'w wneud yn annibynnol).

## Sesiynau:

### 1

### Beth yw Tegwch a Chynhwysiant ac asesu Tegwch a Chynhywsiant yn eich sefydliad

Yn y sesiwn gyntaf hon, roeddem yn edrych ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010, nodweddion gwarchodedig, Tegwch a Chynhwysiant y tu hwnt i'r Ddeddf Cydraddoldeb, terminoleg gynhwysol a defnydd iaith, dad-drefedigaethu amgueddfeydd, gweithredu cadarnhaol, a gwahaniaethu cadarnhaol. Bydd ail hanner y sesiwn yn canolbwyntio ar gefnogi amgueddfeydd i adlewyrchu ar ble y mae Tegwch a Chynhwysiant ar hyn o bryd yn amlwg yn eu sefydliad yn nhermau: Llywodraethu; Gweithlu a Gwirfoddolwyr; Casgliadau; Rhaglennu; Monitro.

### 2

### Cymorth Un-i-Un

Sesiynau unigol gyda phob amgueddfa sy'n cyfranogi i weithio drwy'r hunan-asesiad a deall eu cyd-destun ac anghenion eu hunain yn well.

### 3

### Cael trafodaethau anodd

Trafodaethau yw'r cam cyntaf mewn sefydlu arferion Teg a Chynhwysol yn eich sefydliad. Bydd y broses o ddod yn sefydliad sy'n fwy teg yn agor trafodaethau gyda'ch timau, cynulleidfaoedd a rhanddeiliaid eraill.

### 4

### Dad-drefedigaethu'r Amgueddfa

Beth yw ystyr dad-drefediagaethu'r amgueddfa? Roedd y sesiwn hon yn ymgyfarwyddo amgueddfeydd gyda'r ystyr a'r cysyniadau o beth sydd yn cael ei alw'n fwy a mwy aml yn ddad-drefedigaethu amgueddfeydd. Roedd y sesiwn yn trafod y ffyrdd y mae amgueddfwydd wedi newid eu ffyrdd o ddehongli hanes a diwylliant, o flogio i arddangosfeydd; ac o'r

disgwyliadau presennol arnynt i ystyried Tegwch a Chynhwysiant yn fwy yn eu sefydliad. Rodd y sesiwn hon hefyd yn cynnwys enghreifftiau o arfer da diweddar a oedd yn ysbrydoli.

## 5

### Dadleuon presennol mewn amgueddfeydd a threftadaeth a sut i ymateb

Gelwir yn gryf am waith EDI gwell mewn amgueddfeydd gan lawer o bobl, ond beirniadir hyn gan eraill. Roedd y sesiwn hon yn crynhoi'r prif ddadleuon y gall amgueddfeydd eu wynebu ac yn rhoi cyngor sylfaenol ar strategaethau cyfathrebu mewnol ac allanol.

## 6

### Curadu gyda chymunedau

Roedd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar wahanol fodelau o weithio gyda chymunedau fel: dylunio ar y cyd, ymchwil gyfranogol, dylunio sy'n canolbwyntio ar bobl, a chynnwys cyllido torfol.

## 7

### Dechrau eich Cyn llun Gweithredu Tegwch a Chynhwysiant

Roedd y sesiwn hon yn canolbwyntio ar Gynlluniau Gweithredu Tegwch a Chynhwysiant, gan archwilio templedi posibl a sut i'w datblygu.

## 7a

### Cymorth Un-i-Un i grwpiau cymheiriaid

Rhoddwyd cyfranogwyr mewn grwpiau cymheiriaid o 2-3 amgueddfa a phob grŵp yn cyfranogi mewn sesiynau i gefnogi datblygiad eu cynlluniau gweithredu Tegwch a Chynhwysiant.

## 8

Roedd y sesiwn hon yn edrych ar astudiaethau achos a sut y mae EDI yn perthyn i gyflenwi llwyddiannus o raglenni gwirfoddoli a'r systemau a'r prosesau ar gyfer EDI yn nhermau polisi, cynllunio, mesur a gwerthuso.

## 9

Roedd y sesiwn hon yn edrych ar astudiaethau achos a sut y dylai amgueddfeydd ymgorffori EDI wrth weithio gyda chymunedau.

Adolygwyd a datblygwyd cynnwys sesiynau 8 a 9 yn dilyn y sesiynau un-i-un ac adborth gwerthuso.

### Sesiwn olaf

Roedd y sesiwn derfynol hon yn canolbwyntio ar roi pethau yn eu lle i gefnogi datblygu parhaus y tu hwnt i'r rhaglen ffurfiol.

## Arolwg gwerthuso (a ddosberthir ar ôl sesiwn 3, 6 a 10)

(Nodwch y defnyddiwyd atebion i rai o'r cwestiynau yn y gwethusiad mewnol o'r model peilot. Adlewyrchir atebion dan gwestiwn 4 yn yr adroddiad hwn.)

### 1

**Disgrifiwch safon yr hwyluswyr/siaradwyr os gwelwch yn dda**

- Gwan iawn
- Gwan
- Cymhedrol
- Da
- Rhagorol

Eglurwch eich disgrifiad os gwelwch yn dda.

Unrhyw sylwadau eraill?

### 2

**I ba raddau y cafwyd eich disgwyliadau dysgu eu cyrraedd?**

- Dim o gwbl
- Yn rhannol
- Yn gyfan gwbl

Eglurwch os gwelwch yn dda.

### 3

**A oedd y digwyddiad ar y lefel iawn i chi?**

- Roedd e'n rhy sylfaenol i mi
- Roedd y lefel yn iawn i mi
- Roedd yn rhy arbenigol i mi

Eglurwch os gwelwch yn dda.

### 4

**Beth oeddech yn cymryd o'r digwyddiad?**

- Datblygais wybodaeth a dealltwriaeth o bwnc y sesiwn **Do / Naddo**
- Llwyddais i ddatblygu sgiliau newydd neu wella rhai eisoes y gellir eu gweithredu yn fy sefydliad **Do / Naddo**
- Teimlais fy mod yn gallu rhannu'r sgiliau hyn gyda'm cydweithwyr **Do / Naddo**
- Mae fy hyder wedi cynyddu wrth drafod materion sydd yn perthyn i bynciau'r sesiynau **Ydy / Nacydy**

### 5

**Edrych ymlaen – Pa gamau sydd yn perthyn i'r hyfforddiant hwn y byddwch yn eu cymryd dros y chwe mis nesaf er budd eich sefydliad?**

### 6

**Pa hyfforddiant arall yr hoffech chi weld eich darparwr Datblygu Amgueddfeydd yn ei gyflenwi?**

## Arolwg diwedd y rhaglen

### 1

Nod allweddol y rhaglen yw bod cyfranogwyr yn arddangos dealltwriaeth o Degwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant (EDI) a sut mae'n perthyn i gynulleidfaoedd, gweithlu, llywodraeth a rhaglenni eu hamgueddfa. Gan ystyried popeth a ddysgwyd drwy'r rhaglen, disgrifiwch sut mae eich dealltwriaeth gynyddol o EDI yn perthyn i feysydd amrywiol o waith ar draws eich sefydliad. Rhowch enghreifftiau lle bo'n bosib os gwelwch yn dda.

### 2

Ystyriwch eich lefel o hyder wrth ddefnyddio'r iaith a'r derminoleg sydd yn perthyn i EDI a thrafod materion a phynciau anodd gyda chydweithwyr. Ers cyfranogi yn y rhaglen, rhowch enghraifft o adeg pan wnaethoch unrhyw rai o'r canolynol:

a) Codi materion EDI yn uniongyrchol gyda chydweithwyr.

b) Herio rhagfarn ac anghydraddoldeb yn weithredol yn eich sefydliad.

c) Dechrau trafodaeth anodd am Degwch, Amrywiaeth a Chynhwysiant.

### 3

Nod arall y rhaglen oedd i gyfranogwyr ddatblygu'r sgiliau i nodi materion mewnol, cyfleoedd a rhwystrau allanol sy'n perthyn i EDI o fewn eu sefydliad. Allech chi roi enghraifft o sut oedd y sgiliau newydd a ddabtlygwyd gennych drwy'r rhaglen yn cael eu defnyddio er budd eich amgueddfa a/neu ddatblygiad eich gyrfa?

### 4

Fel rhan o'r rhaglen, byddwch wedi datblygu syniadau a chynlluniau i wella recriwtio, mynediad a chyfranogaeth yn eich amgueddfa. Disgrifiwch os gwelwch yn dda, y math o gynlluniau EDI sydd yn cael eu datblygu yn eich amgueddfa.

Disgrifiwch hefyd os gwelwch yn dda, unrhyw system o gasglu a deall data sy'n perthyn i EDI a sefydlwyd gennych, neu sut y byddwch yn tracio eich cynnydd yn erbyn targedau ac uchelgeisiau EDI a dros y misoedd / blynyddoedd i ddod.

### 5

Yn olaf, roeddech chi a chydweithiwr o'ch amgueddfa yn cyfranogi ar y rhaglen hon, ond er mwyn i gynlluniau EDI lwyddo, bydd angen ymrwymiad gan gydweithwyr ar draws y sefydliad. Disgrifiwch os gwelwch yn dda sut 'rydych (neu sut 'rydych yn cynllunio) i gael cydweithwyr eraill, gan gynnwys ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr, i gyfrannu syniadau, profiad ac ynni i'r cynlluniau. Adlewyrchwch hefyd ar sut y mae cydweithwyr yn ymgysylltu â'r broses gynllunio.

museum development england

Llywodraeth Cymru Welsh Government

AiM Association of Independent Museums
Helping Heritage Organisations Prosper

Supported using public funding by ARTS COUNCIL ENGLAND

mduk.org.uk